# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU A

## 14 RHAGFYR 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.M. Charles (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** J.K. Howell ac B.D.J. Phillips.

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
D. Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys;
R. Edmunds, Rheolwr Materion Defnyddwyr a Busnes;
E. Jones, Arweinydd Trwyddedu;
R. Thomas, Ymarferydd Iechyd Yr Amgylchedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
K. Smith, Swyddog Trwyddedu;
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Cymerwr nodiadau).

**Rhith-Gyfarfod:- 12:00yp - 3:45yp**

### 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

### 2. CAIS AM ADOLYGU TRWYDDED SAFLE - SOUTH STAR, 2 BRYNALLT TERRACE, LLANELLI, SIR GAR, SA15 1NB.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb a oedd yn bresennol am drefn y cyfarfod.

Rhoddwyd gwybod i'r Is-bwyllgor fod cais wedi dod i law gan Heddlu Dyfed-Powys am adolygu trwydded safle ar gyfer South Star, 2 Teras Brynallt, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 1NB. Gofynnwyd am adolygiad oherwydd bod gan yr Heddlu bryderon ynghylch diffyg rheolaeth ddifrifol yn y safle uchod ar ôl i gwynion ddod i lawr ac ar ôl ymweliad gan Heddlu Dyfed-Powys a Swyddog Cydymffurfaeth - Covid o Gyngor Sir Caerfyrddin.
Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r dogfennau canlynol ynghlwm wrth yr adroddiad:-

**Atodiad A** – Copi o'r cais.
**Atodiad B** - Sylwadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Trwyddedu.
**Atodiad C** – Sylwadau a gyflwynwyd gan y Safonau Masnach.
**Atodiad D** – Sylwadau a gyflwynwyd gan Iechyd yr Amgylchedd.

Rhoddodd Mr David Bizby, Cynrychiolydd Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, fanylion am y cais i'r Is-bwyllgor ar ran y Prif Gwnstabl.

Bu i gynrychiolydd yr Awdurdod Trwyddedu wneud sylwadau ar lafar a chyfeiriodd at y sylwadau y manylwyd arnynt yn Atodiad B, a chafwyd sylwadau ar lafar hefyd gan y Safonau Masnach (gan gyfeirio at Atodiad C) ac Iechyd yr Amgylchedd (gan gyfeirio at Atodiad D).

Roedd Mr V Moholkar, Deiliad y Drwydded Safle, Ms Davies a Mr Morgan sy'n rheoli'r South Star o ddydd i ddydd hefyd yn bresennol.

Rhoddwyd cyfle i bawb ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd am ei sylwadau ac i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y cynrychiolwyr.

**Yna PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gan yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Yn ystod y sesiwn preifat, ar ôl i'r Is-bwyllgor ystyried y paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu a'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid ymdrin â'r cais fel a ganlyn;**

**2.1 Bod yr 13 o amodau trwydded y gofynnwyd amdanynt gan yr Heddlu yn y cais am adolygiad yn cael eu hychwanegu at y drwydded ac eithrio bod amod 9 yn cael ei newid er mwyn bod yn berthnasol ar ôl 9pm yn unig;**

**2.2 Bod Deiliad y Drwydded Safle yn cael ei atgoffa o bwysigrwydd darparu'r wybodaeth gyswllt ddiweddaraf i'r Awdurdod Trwyddedu ar gyfer Deiliad y Drwydded Safle a Goruchwylydd Dynodedig y Safle bob amser.**

**<u>Y Rhesymau</u>**

Wrth benderfynu ar y cais, gwnaeth yr Is-bwyllgor y canfyddiadau canlynol;

1. Bu nifer o gwynion i'r heddlu ac i awdurdodau cyfrifol eraill ynghylch niwsans sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y safle neu'n gysylltiedig ag ef.

2. Bu nifer o achosion pan oedd y safle wedi cael ei weithredu mewn modd oedd yn torri rheoliadau COVID a oedd mewn grym bryd hynny.

3. Ar 11 Medi 2021 roedd Mr Nigel Brain yn ymosodol ac yn anghwrtais tuag at y swyddog heddlu a'r swyddog gorfodi COVID gan eu gorfodi i adael y safle drwy eu gwthio.

4. Pan ddaeth swyddogion yr heddlu i'r safle wedyn i weld darn ffilm o'r teledu cylch cyfyng o'r digwyddiad, nid oedd dim ar gael ar gyfer y rhan berthnasol o'r safle ac nid oedd rheolwr y safle (Miss Davies) yn gallu cael mynediad i'r system na'i gweithredu.

5. Roedd Deiliad y Drwydded Safle wedi cytuno i'r amodau trwydded ychwanegol (fel y'u diwygiwyd) gael eu hychwanegu at y drwydded.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol ac yn benodol wedi canfod bod y dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Heddlu mewn perthynas â'r digwyddiad ar 11 Medi 2021 yn gredadwy ac yn gymhellol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon ar y dystiolaeth a roddwyd ger ei fron fod y safle wedi cael ei weithredu mewn modd nad oedd yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn ac atal niwsans cyhoeddus. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon y byddai'n bosibl hyrwyddo'r amcanion hynny'n ddigonol heb ychwanegu amodau ychwanegol at y drwydded.

Hefyd roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod yr amodau trwydded ychwanegol yr oedd yr heddlu wedi gofyn amdanynt, ac a gefnogwyd gan yr awdurdodau cyfrifol eraill, yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu hynny ac yn ymateb cymesur i'r materion a nodwyd yn y cais.

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**